

## **Y Pwyllgor Diwylliant CC-17-01(min)**

### **COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 15 Tachwedd 2001

**Amser:** 2.00pm-4.30pm

**Lleoliad:** Canolfan Casnewydd, Casnewydd

### **Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Jonathan Morgan (Ceidwadwr, Canol De Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

### **Ymddiheuriadau**

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

### **Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Russell Thomas (Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

### **Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor ar yr adolygiad o'r Gymraeg)

### **Sylwadau rhagarweiniol:**

Derbyniodd y Cadeirydd gydsyniad y Pwyllgor mewn egwyddor ynghylch comisiynu arolwg o agweddau/pôl piniwn ynglŷn ag agweddau at y Gymraeg. Câi'r mater ei drafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai Vincent Kane o Cardiff Marketing Cyf yn rhoi cyflwyniad ynglŷn â chais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008, yn y Cynulliad ar 21 Tachwedd am 5.30pm.

Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor hefyd ei fod wedi gwahodd yr Arglwydd Gwilym Prys Davies i roi tystiolaeth ar yr adolygiad o'r Gymraeg ar 5 Rhagfyr.

### **Eitem 1: Adolygiad y Pwyllgor o'r Gymraeg**

#### **Papur: CC-17-01(p'au.1&2)**

Sefydliad:

#### **Awdurdod Datblygu Cymru**

Cynrychiolydd:

Gareth Hall

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae'r Awdurdod yn cydnabod swyddogaeth allweddol datblygiad economaidd yn nyfodol y Gymraeg a chred fod dwyieithrwydd yn agwedd hanfodol ar lawer cymuned ledled y Gymru drefol a gwledig.
- Mae polisi adfywio cymunedau'r Awdurdod yn seiliedig ar ardaloedd ac mae'n darparu ar gyfer cyfuno mesurau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

ategol, y mae llawer ohonynt wedi esblygu neu ddatblygu o'r anghenion a ganfuwyd mewn gwahanol ardaloedd.

- Mae cynlluniau'r Awdurdod sy'n cynorthwyo adfywiad cymunedau yn cynnwys y Cynllun Trefi Marchnad yng Nghanolbarth Cymru, sydd yn fwy diweddar wedi datblygu yn Pecyn o Offer i Adfywio Cymunedau sy'n eang ei gwmpas ac ar gael ledled Cymru.
- Bu'r Awdurdod yn un o arianwyr creiddiol Menter a Busnes o'r cychwyn er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i fentro i fyd busnes.
- Darparwyd cymorth helaeth hefyd mewn blynyddoedd diweddar i ddiwydiant y cyfryngau, un o brif hyrwyddwyr y Gymraeg a darparwr swyddi o safon.
- Mae prosiectau fel y Bartneriaeth Llwybr Pathway a MARAN wedi arwain at sicrhau mynediad at ystodau uwch i amrywiaeth o fusnesau a defnyddwyr mewn ardaloedd na fyddent fel arall wedi cael gwasanaeth gan ddarparwyr telegyfathrebiadau preifat, y mae llawer rhan ohonynt yn y broydd sy'n Gymraeg eu hiaith yn bennaf.
- Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellir cymryd agwedd hyd yn oed yn fwy cydlynol o ran hyrwyddo ystyriaethau ieithyddol yn ein gweithgareddau. I'r perwyl hwn, mae'n cydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ymchwilio i feysydd lle gellid cydweithredu yn y dyfodol.
- Mae gwaith yr Awdurdod yn hyrwyddo hyfywedd economaidd llawer cymuned ddwyieithog ond nis cyflwynwyd fel cyfraniad uniongyrchol i ddyfodol y Gymraeg. Un gweithgarwch posibl i'r Awdurdod fyddai mynd ati i farchnata â negeseuon o gefnogaeth i gymunedau dwyieithog.

## **Sefydliad**

### **Bwrdd Croeso Cymru**

Cynrychiolydd:

Susan Morris

Cyflwynodd Ms Morris ei phapur (CC-17-01(p.2)).

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb:

### **Awdurdod Datblygu Cymru**

- Wrth ateb cwestiwn ynglŷn â hygyrchedd radio band-llydan, dywedodd Gareth Hall fod yr isadeiledd yn ei le yn bendant, a'r hyn oedd ei angen yn awr oedd ysgogi'r galw amdano.
- Mae'r Awdurdod Datblygu yr un mor ymrwymedig i fuddsoddiad gwledig ag i fuddsoddiad trefol.
- Cytunai Gareth Hall nad agwedd gyfannol at ddwyieithrwydd oedd y polisi gorau bob amser a bod angen pwyslais gwahanol i ymgyrchoedd yn y De-ddwyrain i'r rhai yn y Gogledd-orllewin.
- Mae cwmnïau tramor yn cydnabod bod dwyieithrwydd yn elfen gadarnhaol dros ben. Uwchlaw popeth mae buddsoddwyr o'r tu allan yn edrych am gronfa o lafur medrus a theyrngar ac mae'r nodweddion hyn yn flaenllaw iawn mewn cymunedau Cymreig.
- Dywedodd Gareth Hall mai ochr negyddol i'r iaith a welsai ef yn ddieithriad pan na châi ei chyfleu fel dwyieithrwydd.
- Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn monitro llwyddiant ei raglenni fel mater o drefn.

## **Bwrdd Croeso Cymru**

- Daw dros 50% o'r incwm o dwristiaeth o ardaloedd cefn gwlad Cymru. Mae'r prosiect 'synnwyr lle' yn hanfodol i dwristiaeth a dwyieithrwydd. Cytunodd Susan Morris y byddai'n rhoi rhagor o wybodaeth i'r Aelodau am y prosiect hwn.
- Mae'r prosiect hwn yn cael ei anelu at ranbarthau; targedwyd miliynau o bunnau hefyd ar 'ardaloedd twf twristiaeth'.
- Nid yw'n hawdd bob amser darbwylo busnesau ynghylch manteision y Gymraeg. Yn bendifaddau cafodd y sylwadau dadleuol a wnaed am yr iaith yn ystod wythnos yr Eisteddfod effaith negyddol ar dwristiaeth a pharodd i rai pobl ganslo eu gwyliau. Ond at ei gilydd, prin yw'r negyddiaeth tuag at yr iaith.
- Mae cyrsiau mewn marchnata ar gael i bawb sy'n derbyn grant Bwrdd Croeso Cymru.
- Daeth gwefan y Bwrdd Croeso yn offeryn pwysig iawn er denu pobl i Gymru.

## **Sefydliad:**

### **CBI Cymru:**

Cynrychiolydd:

David Rosser, Cyfarwyddwr

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae cyflogwyr yn rhoi gwerth mawr ar sgiliau iaith.
- Ni ddylai'r Cynulliad osod unrhyw ofynion ar gwmnïau preifat mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai unrhyw ymdrech i orfodi busnes i ddefnyddio'r iaith yn wrthgynhyrchiol.
- Ni fyddai unrhyw gam i ymestyn darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg, i'w gwneud yn orfodol i fanciau, er enghraifft, ddefnyddio'r Gymraeg yn gwneud dim ond cynyddu costau y busnesau hynny sydd eisoes yn defnyddio'r iaith yn wirfoddol.
- Mae angen i'r Cynulliad greu'r amodau economaidd iawn yn y broydd Cymraeg i alluogi pobl i sefydlu busnesau yn yr ardaloedd hyn.
- I wella amgylchedd busnes cefn gwlad bydd angen gwella'r isadeiledd trafniadaeth.
- Cafodd naws y ddadl am yr iaith dros yr haf effaith niweidiol, ac weithiau portreadodd Gymru fel lle digroeso. Gallai hyn fod wedi cael effaith negyddol ar fuddsoddi o'r tu allan.

## **Sefydliad:**

### **TUC Cymru**

Cynrychiolydd:

David Jenkins, Yr Ysgrifennydd Cyffredinol

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Yn fras, mae TUC Cymru yn cynrychioli 45% o'r gweithlu yng Nghymru, ar draws nifer o undebau unigol. Fel sefydliad rhychwantu/ymbarél, mae TUC Cymru wedi cymryd y safbwynt y bydd yn ceisio datblygu'r Gymraeg yn y mudiad Undebau Llafur.

- Mae ymchwil ddiweddar, fodd bynnag, wedi dangos dirywiad bychan yn y nifer o undebau yng Nghymru sydd â pholisi Cymraeg. Pedwar Undeb Llafur yng Nghymru sydd â pholisi Cymraeg, ac mae wyth arall yn rhoi ystyriaeth ar hyn o bryd i fabwysiadu polisi o'r fath.
- Mae undebau bellach yn dechrau dilyn dull dwyieithog o gyfathrebu â'r byd y tu allan, ond mae hon yn broses araf, a dim ond un undeb yng Nghymru sydd â chyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael yn ei gyfarfodydd cenedlaethol.
- Mae defnydd o'r iaith a'r galw amdani yn gymharol isel o fewn y mudiad undebau llafur. Er enghraifft, cafwyd 150 o gyfraniadau yn y gynhadledd flynyddol y llynedd, ond dim ond pump o'r rhain oedd yn Gymraeg.
- Mae cefnogaeth gref i fywyd diwylliannol a dydd i ddydd yr iaith, ond llai o alw am y Gymraeg yn y gweithle.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

## **CBI Cymru**

- Wrth ateb cwestiwn a holai a oedd y CBI yn gwneud unrhyw beth i annog pobl i ymuno â busnesau sy'n cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, atebodd Mr Rosser nad yw'r CBI yn gwahaniaethu o blaid busnesau o'r fath; nid oes unrhyw wahaniaethu cadarnhaol o'r math hwn.
- Roedd Mr Rosser yn awyddus i ymdrin â'r camsyniad nad yw costau yn bwysig mewn busnesau mawr. Sicrhaodd y Pwyllgor fod pob aelod ledled Cymru, hyd yn oed yn y cwmnïau mwyaf, yn cadw llygad barcud ar gostau. Po fwyaf y busnes, mwyaf o gystadleuaeth ryngwladol sydd ganddo a mwyaf y mae'n rhaid iddo gadw golwg ar drwch yr elw a phwysau costau.
- Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yng Nghymru sy'n gweithredu yn ddwyieithog yn gwneud hynny o ewyllys da, gan gredu ei fod yn eu helpu â chysylltiadau â'r cwsmer.
- Yr oedd naws y drafodaeth ar yr iaith yng nghynhadledd ddiweddar y CBI yn gadarnhaol iawn. Roedd y gynhadledd yn amlieithog.
- Un o'r prif atyniadau i fuddsoddwyr o'r tu allan a ddaw i'r D.U. yw'r iaith Saesneg. Byddai'r mwyafrif helaeth o fuddsoddwyr o'r tu allan yn ystyried unrhyw ymgais i orfodi busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn gost ychwanegol.
- Wrth ateb cwestiwn yn holi sut y gwelai'r CBI ddatblygiad hyfforddiant yn y gweithle

mewn sgiliau iaith, atebodd Mr Rosser nad yw'r CBI yn gwahaniaethu rhwng hyfforddiant iaith a mathau eraill o hyfforddiant.

## **TUC Cymru**

- Mae aelodau'r Undebau Llafur i'w cael yn y Gogledd a'r De-ddwyrain diwydiannol yn bennaf ac mae'r aelodaeth yn tueddu i fod gryfaf ymhlith y boblogaeth hon.
- Bu tuedd i faterion iaith fod yn rhan o'r agenda cyfle cyfartal o fewn TUC Cymru ac fe'u triniwyd ar y sail ei bod yn gyfiawn a theg gwneud darpariaeth iaith.
- Mae TUC Cymru wedi ceisio cael ei undebau cyswllt i dderbyn polisi Cymraeg gwirfoddol. Mae'r undebau yn nerfus ynghylch cael eu llusgo i dir gorfodaeth. Mae'n well ganddynt y dull amhenodol, heb ei ddatgan, yn hytrach na chod ffurfiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r CBI a'r TUC am eu cyfraniad cadarnhaol a realistig i'r drafodaeth am yr iaith

## **Sefydliad:**

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd**

Cynrychiolydd:

Colin Crick

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Nid oedd Mr Crick wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r adolygiad, ond addawodd wneud hynny o fewn y ddwy wythnos nesaf wedi iddo gael cymeradwyaeth y Cabinet a'r Cyngor.
- Yng Nghasnewydd, bu'r gwaith o weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn arafach nag yr oedd y Cyngor yn ei ddymuno, ond mae awydd cryf o fewn y Cyngor i alluogi ei holl ddinasyddion i ddefnyddio gwasanaethau trwy eu dewis iaith, lle bynnag y bo modd.
- Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Cydraddoldeb ar lefel uchel a bydd yn trin y Gymraeg fel un o'r prif faterion cydraddoldeb.
- Bu llawer o ddatblygiadau cadarnhaol diweddar yng Nghasnewydd. Yn eu plith y mae sefydlu meithrinfa Gymraeg â 52 o lefydd, cyflwyno ffurflenni treth Gyngor dwyieithog, a

gwefan ddwyieithog. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal adolygiad sylfaenol o adeiladwaith democrataidd yr Awdurdod.

- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhaid iddo, er mwyn sicrhau cynhwysedd cymdeithasol, fod â darpariaethau yn y Gymraeg.
- Bydd gan y Cyngor hefyd, o'r Flwyddyn Newydd, sianel gyfathrebu newydd fel y gellir ymdrin â phroblemau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd lleiafrifol eraill.
- Addawodd Mr Crick ddod yn ôl at y Pwyllgor â'i ymateb swyddogol i'r adolygiad ac i ymholiadau'r Pwyllgor ynghylch materion addysg.

## **David Davies AC**

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae mwyafrif pobl ardal Casnewydd yn credu ym mhwysigrwydd datblygu'r Gymraeg yn y De-ddwyrain.
- Camgymeriad y Llywodraeth ar hyn o bryd yw dilyn polisi unffurf i'r Gymraeg drwy Gymru benbaladr. Dylai'r Cynulliad ganiatáu i awdurdodau lleol ddilyn polisiau i weddu i bob ardal.
- Mae gwneud i blant ym Mynwy ddysgu Cymraeg yn fandadol yn wastraff ar arian cyhoeddus. Mae'n anodd cael athrawon sy'n gymwys yn yr iaith ac mae'n anodd hefyd dysgu plant nad oes ganddynt fawr ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg. Dylem ganolbwyntio ar y disgyblion hynny sy'n dymuno dysgu Cymraeg.
- Dylai'r Cynulliad, a chyrrff cyhoeddus eraill, edrych yn ofalus iawn hefyd ar ba ddogfennau y maent yn eu cyfieithu ac ar faint o arian cyhoeddus a werir ar gyfieithu.
- Dylai'r Cynulliad wneud popeth a all i gynorthwyo'r iaith, ond dylai wneud hynny trwy bolisiau dewis.

## **Sesiwn microffon agored**

Nodwyd y cyfraniadau canlynol:

- Dywedodd Shirley Mills fod ymddiheuriad yn ddyledus i'r Cymry gan y Saeson am y ffordd y maent wedi trin y Gymraeg trwy'r canrifoedd. Aeth ymlaen i ddweud bod y rhan fwyaf o bobl yn gwrthwynebu addysgu'r Cymraeg yn orfodol. Dylai pawb fod â'r hawl i



ddysgu Cymraeg, ond ni ddylid ei gorfodi ar bobl.

- Beirniadodd Alun Thomas Gyngor Bwrdeistref Casnewydd am beidio ag ymateb i Ddeddf y Iaith Gymraeg mewn unrhyw fodd. Dyma'r unig Gyngor yng Nghymru i beidio â darparu gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg. Teimlai Mr Thomas mai'r prif reswm yr oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i Gasnewydd yn 2004 oedd er mwyn i Gasnewydd fod â gwell cyfle i ennill statws dinas.
- Dywedodd Stefan Lewis mai'r Gymraeg yw iaith Cymru ac y dylai pobl dderbyn y ffaith fod hon yn wlad ddwyieithog. Beirniadodd y Cyngor hefyd am beidio â darparu arwyddion neu wasanaethau dwyieithog a chyfeiriodd at rai agweddau gwrth-Gymreig yng Nghasnewydd ac yn y gyn sir, Gwent a oedd yn gwneud iddo deimlo weithiau fel dinesydd ail-ddosbarth yn ei wlad ei hun.
- Rhoddodd Debbie Griffiths wybod i'r Pwyllgor am yr anawsterau a wynebai rhieni wrth geisio sefydlu ail ysgol gynradd ac ysgol uwchradd Cymraeg eu cyfrwng yng Nghasnewydd. Gobeithiai y gallai'r Cynulliad wneud rhywbeth i symud y mater hwn yn ei flaen.
- Dywedodd David Thomas nad oedd pobl a siaradai Gymraeg bob amser yn manteisio ar y darpariaethau ieithyddol a oedd ar gael.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau o'r gynulleidfa am eu cyfraniad bywiog.

### **Materion eraill**

- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor mai hwn oedd cyfarfod olaf Jonathan Morgan, yn ôl pob tebyg, fel aelod o'r Pwyllgor. Ar ran y Pwyllgor, diolchodd iddo am ei gyfraniad gwerthfawr.
- Gofynnodd Delyth Evans i'r Cadeirydd pryd yr oedd y Pwyllgor yn debygol o ystyried mater cymryd tystiolaeth mewn gwledydd eraill. Dywedodd y Cadeirydd y byddai mater ymweliadau tramor yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 21 Tachwedd.

### **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2001**